**EITEM AR YR AGENDA: 6 b**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**3ydd Chwefror 2014**

**DIGWYDDIADAU O BWYS**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am ddigwyddiadau o bwys yn ystod Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014.

## Cefndir

2 Ym mhob cyfarfod o'r Panel Gweithredol mae'r Aelodau'n cael yr adroddiad monitro perfformiad am y chwarter blaenorol. Yn ddiweddar, mae'r Aelodau wedi gofyn am adroddiad sy'n rhoi mwy o wybodaeth am ddigwyddiadau o bwys.

## Gwybodaeth

3 Mae'r adroddiad yn ychwanegiad at yr wybodaeth monitro perfformiad, ac mae atodiad A yn rhoi blas o'r mathau o ddigwyddiad yr eir atynt, lefel yr adnoddau yr oedd eu hangen yn ystod y digwyddiadau hyn, ynghyd â'r amser a dreuliwyd ar y digwyddiad.

## Argymhelliad

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth.

**Atodiad A**

| Dyddiad | Manylion y Digwyddiad | Math a nifer y peiriannau a oedd yn bresennol | Amser a dreuliwyd yn y digwyddiad |
|---|---|---|---|
| 05/12/13 | Llifogydd ar hyd yr arfordir a achoswyd gan lanw uchel, ardal fawr o wasgedd atmosfferig isel a gwyntoedd ar y lan.<br>13 rhybudd o lifogydd a 2 rybudd difrifol yn eu lle.<br>Dŵr llifogydd yn effeithio ar 300+ eiddo yn y Rhyl | • 13 o orsafoedd yn cymryd rhan<br>• Unedau achub o ddŵr o Fangor, Glannau Dyfrdwy, Betws-y-Coed a Rhuthun, ynghyd â chriwiau'r RNLI<br>• Pympiau Cyfaint Uchel o GTA y Gogledd a GTA y Canolbarth a'r Gorllewin<br>• Ymdriniwyd ag 11 o ddigwyddiadau eraill yn ystod y llifogydd<br>• Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl yn ganolfan amlasiantaethol fel rhan o'r gwaith adfer, gyda thros 750 o bobl yn dod draw | 2 ddiwrnod yn y digwyddiad<br><br>8 diwrnod fel canolfan adfer |
| 7/12/13 | Gwrthdrawiad car gyda stondinau marchnad | • Criwiau o'r Wyddgrug, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam<br>• 7 o bobl wedi eu hanafu | 2 awr 10 munud |
| 16/12/13 | Tân mewn cartref nyrsio -<br>GTAGC ac arbenigwyr fforensig yn ymchwilio i'r achos | • 6 chriw o ddiffoddwyr tân, o Lanelwy, y Rhyl, Dinbych, Abergele a Phrestatyn<br>• Peiriant ALP ac Uned Rheoli Digwyddiadau o'r Rhyl<br>• Defnyddiwyd cyfarpar anadlu, pibell olwyn a phrif bibellau. | 18 awr 30 munud |
| 18/12/13 | Tân y tu allan, yn ymwneud â 1000 o dunelli o sglodion pren mewn uned ar barc diwydiannol – Taniad digymell (spontaneous *combustion*) oedd yr achos | • 4 criw o ddiffoddwyr tân, o Lannau Dyfrdwy, y Fflint, Wrecsam a Chaer<br>• Peiriant ALP o Wrecsam<br>• Uned Rheoli Digwyddiadau o'r Rhyl<br>• Defnyddiodd y criwiau brif bibellau a phibell olwyn i ymdrin â'r tân, a defnyddiwyd cloddiwr mecanyddol i symud y pentyrrau o sglodion pren<br>• Nid oedd unrhyw anafiadau wedi eu hadrodd | 5 awr 20 munud |

**Atodiad A**

| Dyddiad | Manylion y Digwyddiad | Math a nifer y peiriannau a oedd yn bresennol | Amser a dreuliwyd yn y digwyddiad |
|---|---|---|---|
| 26/12/13 | Lle cadw ceir a fu mewn damwain yn cael tân yn effeithio ar 52 o geir. Achoswyd gan nam trydanol ar un o'r cerbydau yno | • Dau griw o Lannau Dyfrdwy<br>• Criwiau o'r Fflint a Chaer<br>• Uned Rheoli Digwyddiadau o'r Rhyl<br>• Defnyddiwyd cyfarpar anadlu, dwy bibell olwyn a phedair prif bibell | 2 awr 30 munud |
| 29/12/13 | Gwrthdrawiad ar y ffordd yn ymwneud â fan a char<br><br>*Ym mis Rhagfyr 2013, aethpwyd at 13 o wrthdrawiadau gyda phobl yn sownd | • 2 griw o Wrecsam<br>• Uned achub technegol o Wrecsam<br>• 2 o bobl yn sownd<br>• Defnyddiodd y criwiau gyfarpar torri hydrolig i dynnu'r ddau berson allan<br>• 1 marwolaeth, 22 mlwydd oed | 2 awr 30 munud |
| 03/01/14 | Llifogydd yn y Bermo a achoswyd gan lanw uchel eithriadol a gwyntoedd grym storm ar y lan | • Llwyddwyd i gael y rhan fwyaf o'r trigolion allan yn ddiogel cyn cau, a hynny o ganlyniad i gydweithio amlasiantaethol rhagorol<br>• Unedau achub o ddŵr GTAGC a'r RNLI yno yn y fan a'r lle cyn y llifogydd<br>• Y ddau wasanaeth yn achub | 9 awr |
| 06/01/14 | Mellt yn achosi tân mewn tŷ | • Criwiau o Gaergybi, Porthaethwy a Llanfairfechan<br>• Defnyddiwyd pibell olwyn a chyfarpar anadlu<br>• Dihangodd un preswyliwr gwryw yn ddianaf. | 5 awr 10 munud |

## Atodiad A

Gallai canlyniadau'r digwyddiadau fod wedi bod yn llawer gwaeth petaent heb y larymau mwg a osodwyd a heb gael y cyfarwyddyd atal tân/dianc yn fyw. Mae hyn hefyd yn dangos mor bwysig yw gweithio mewn partneriaeth. (20,000 o Archwiliadau wedi eu cynnal, a 32% ohonynt yn atgyfeiriadau pobl fregus gan asiantaethau eraill).

| Dyddiad | Digwyddiad | Adnoddau a ddefnyddiwyd a'r canlyniad | Gosodwyd larwm mwg gan |
|---|---|---|---|
| 04/12/13 | Gril a neb yn cadw golwg arno | Dau set o gyfarpar anadlu, a phibell olwyn i ddiffodd y fflamau.<br><br>Dim anafiadau. | Cymdeithas Tai Clwyd Alyn ar ran GTAGC |
| 20/12/13 | Cwcer wedi ei adael ymlaen | Criwiau o Rhuthun a Glannau Dyfrdwy. Cwcer wedi ei adael ymlaen pan aeth y preswyliwr allan. Tynnwyd sylw'r cymdogion gan larwm mwg, a galwon nhw'r GTA.<br>Aeth y criwiau i mewn a chafodd y tân ei gyfyngu i'r cwcer. | Adeiladwr |
| 23/12/13 | Trydanol Achosodd y tân 95% o ddifrod i'r eiddo | Roedd criwiau o Johnstown, Wrecsam, Bwcle a Llangollen yn ogystal â'r Uned Rheoli Digwyddiadau o'r Rhyl yno i fynd i'r afael â'r tân gan ddefnyddio cyfarpar anadlu a phibellau olwyn.<br><br>Rhoddodd larwm mwg wybod i'r teulu fod yna dân, aeth pawb allan o'r eiddo yn ddianaf. | Eu hunain |
| 02/01/14 | Trydanol Achosodd y tân ddifrod mwg sylweddol i'r llawr gwaelod a'r llawr cyntaf yn yr eiddo, ac ychydig o ddifrod tân i'r ystafell fyw . | Aeth diffoddwyr tân o Langefni a Phorthaethwy yno.<br>Defnyddiwyd pibell olwyn a chwe set o gyfarpar anadlu i ymdrin â'r tân.<br>Cafodd y preswylwyr, sef cwpl yn eu 70au, wybod bod tân gan sŵn larwm mwg a chawsant gyngor ar sut i oroesi mewn tân gan weithredwyr yr ystafell reoli cyn cael eu harwain i ddiogelwch gan y diffoddwyr tân. | GTAGC |
| 05/01/14 | Tân trydanol (peiriant golchi) | Wrecsam a Johnstown<br>Cynhaliwyd archwiliad diogelwch tân yn y cartref ddeufis cyn y digwyddiad. Digwyddodd yn oriau mân y bore, a rhoddodd larwm mwg wybod bod tân. | GTAGC |